Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

**Ysgol Y Dderwen**
**Heol Spurrell**
**Caerfyrddin**
**SA31 1TG**

**Dyddiad yr arolygiad: Mawrth 2017**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

## Crynodeb

Yn Ysgol y Dderwen, mae rhan fwyaf y disgyblion yn cyflawni'n dda, gydag ychydig yn gwneud cynnydd rhagorol. Mae ymddygiad ac agweddau tuag at ddysgu disgyblion yn ardderchog ac maent yn dyfalbarhau â'u tasgau yn arbennig o dda. Mae llawer o'r athrawon yn darparu profiadau diddorol sydd yn ennyn diddordeb rhan fwyaf y disgyblion yn effeithiol. Mae'r staff yn cydweithio'n fedrus er mwyn sicrhau ethos gofalgar a lles rhagorol i ddisgyblion. Mae arweinwyr yn gosod disgwyliadau uchel a gweledigaeth bwrpasol ar gyfer yr ysgol. Maent yn defnyddio'r wybodaeth o brosesau hunanarfarnu yn effeithiol er mwyn adnabod blaenoriaethau gwella synhwyrol a sicrhau gwelliant.

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn cynnal safonau uchel ac ansawdd y ddarpariaeth ac yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

Bydd Estyn yn gwahodd yr ysgol i baratoi astudiaeth achos ysgrifenedig, gan ddisgrifio'r arfer orau a welwyd yn ystod yr arolygiad.

## Argymhellion

A1 Darparu digon o gyfleoedd i ddisgyblion wneud penderfyniadau a dewisiadau mewn perthynas â'u dysgu

A2 Sichrau bod adborth athrawon yn galluogi disgyblion i wybod yn union beth sydd angen iddynt ei wneud er mwyn gwella eu medrau

A3 Darparu mwy o gyfleoedd creadigol i ddisgyblion ymestyn eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth

A4 Monitro'r cynnydd wrth fynd i'r afael â phob agwedd sydd yn cael ei hadnabod yn y broses hunanarfarnu

## Prif ganfyddiadau

| 1: Safonau | Da |
|---|---|

Wrth ddechrau yn yr ysgol, mae medrau sylfaenol y rhan fwyaf o ddisgyblion o leiaf yn cyfateb i'r hyn a ddisgwylir ar gyfer eu hoed. Wrth iddynt symud drwy'r ysgol, maent yn gwneud o leiaf gynnydd cryf ac yn cyflawni'n dda erbyn Blwyddyn 6. Mae ychydig o'r disgyblion mwyaf abl yn gwneud cynnydd rhagorol. Mae disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol yn gwneud cynnydd da tuag at eu targedau o'u mannau cychwyn.

Un o gryfderau'r ysgol yw'r ffordd y mae rhan fwyaf y disgyblion yn cyfathrebu i safon uchel yn y Gymraeg. Yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol, maent yn gwneud cynnydd eithriadol yn eu medrau llafar. Drwy'r Cyfnod Sylfaen, mae'r rhan fwyaf yn gwrando'n ofalus ac yn trafod eu gwaith yn hyderus gan ddefnyddio ystod gynyddol o batrymau iaith a geirfa. Ar draws cyfnod allweddol 2, mae'r rhan fwyaf yn dangos parch gwirioneddol wrth wrando ar safbwyntiau eraill. Maent yn siarad yn aeddfed yn y Gymraeg a Saesneg gan ddefnyddio iaith ffurfiol lle bo'n briodol, er enghraifft wrth gyflwyno rhaglen radio'r ysgol. Wrth drafod yn y Gymraeg, defnyddiant eu tafodiaith leol yn gwbl naturiol wrth gynnal sgwrs.

Mae rhan fwyaf y disgyblion yn dechrau adnabod llythrennau ac yn datblygu eu hymwybyddiaeth o ffoneg yn gynnar ar ôl dechrau yn yr ysgol. Erbyn Blwyddyn 2, gall y rhan fwyaf ddefnyddio eu medrau darllen yn llwyddiannus ar draws y cwricwlwm, er enghraifft wrth ymchwilio am wybodaeth am wahanol anifeiliaid. Mae llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd cadarn yn eu darllen ar draws cyfnod allweddol 2 yn y ddwy iaith. Maent yn llithrddarllen am wybodaeth yn fedrus i gywain gwybodaeth, er enghraifft wrth ymchwilio am wybodaeth am y Pesach yn ystod gwersi addysg grefyddol. Mae llawer o ddisgyblion yn datblygu medrau trawsieithu o safon uchel wrth ddarllen a thrin gwybodaeth.

Mae rhan fwyaf y disgyblion yn datblygu medrau ysgrifennu effeithiol. Mae gan y rhan fwyaf ymwybyddiaeth gadarn o wahanol ffurfiau ysgrifennu. Yn y Cyfnod Sylfaen, mae'r rhan fwyaf yn ysgrifennu'n glir gan amrywio brawddegau ac yn cyfoethogi'u gwaith gydag ystod eang o ansoddeiriau a chymariaethau. Wrth ysgrifennu storïau, mae gan ychydig o'r disgyblion mwyaf abl ddealltwriaeth arbennig o dda o sut i ddod â chymeriadau yn fyw i'r darllenydd, er enghraifft wrth ysgrifennu stori'r tair llygoden a'r gath fawr ddu. Mae llawer o ddisgyblion yng nghyfnod allweddol 2 yn adeiladu ar eu medrau ysgrifennu yn gynyddol yn y ddwy iaith. Mae ganddynt ddealltwriaeth effeithiol o fecanweithiau ysgrifennu, ond nid ydynt bob tro'n ysgrifennu'n ddigon creadigol er mwyn dal sylw'r darllenydd yn llwyr effeithiol. Mae ychydig o'r disgyblion mwyaf galluog yn ysgrifennu darnau estynedig o safon uchel. Maent yn ysgrifennu'n aeddfed wrth ystyried eu cynulleidfa yn ofalus.

Mae medrau rhifedd rhan fwyaf y disgyblion yn datblygu'n effeithiol ar draws yr ysgol. Yn y Cyfnod Sylfaen, mae llawer yn cymhwyso eu medrau yn llwyddiannus wrth ddatrys problemau yn yr ardaloedd dysgu. Er enghraifft, mae disgyblion Blwyddyn 2 yn datrys problemau amser gan gofnodi'u hatebion ar glociau analog a digidol. Yng

nghyfnod allweddol 2, mae llawer o ddisgyblion yn defnyddio strategaethau rhif amrywiol yn llwyddiannus er mwyn cyfrifo. Mae'r mwyafrif yn gwneud dewisiadau call yn seiliedig ar ystod dda o strategaethau gwirio er mwyn penderfynu os yw eu hatebion yn gywir. Yn gyffredinol, mae'r rhan fwyaf yn trosglwyddo eu medrau rhifedd yn effeithiol, yn benodol yn eu gwersi gwyddoniaeth, er enghraifft wrth fesur onglau er mwyn ymchwilio i ffrithiant. Maent yn gweithio'n llwyddiannus i ddatrys problemau o fewn ffiniau'r gweithgareddau. Er gwaethaf hynny, ar adegau, nid ydynt yn hollol hyderus wrth gymhwyso'r hyn y maent wedi ei ddysgu'n flaenorol mewn pynciau eraill.

Mae medrau technoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) rhan fwyaf y disgyblion yn effeithiol ar draws yr ysgol. Yn y dosbarth derbyn, mae llawer o ddisgyblion yn rhoi cyfarwyddiadau syml i degan er mwyn ei symud o amgylch llwybr. Ar draws y Cyfnod Sylfaen, mae'r rhan fwyaf yn defnyddio'u medrau yn hyderus ar draws y meysydd dysgu, er enghraifft wrth ddefnyddio codau QR i ddatrys problemau. Yng nghyfnod allweddol 2, mae'r rhan fwyaf yn creu cyflwyniadau amlgyfrwng yn hyderus er mwyn cyflwyno'u gwaith. Maent yn defnyddio fformiwla yn gymwys i greu taenlen i gyfrifo cost am fwyd parti.

| **2: Lles ac agweddau at ddysgu** | **Rhagorol** |
|---|---|

Mae ymddygiad bron pob disgybl mewn gwersi, gwasanaethau, wrth symud o amgylch yr ysgol ac yn ystod amseroedd hamdden y disgyblion, yn gyson ardderchog. Mae disgyblion yn ofalgar o'i gilydd, ac yn trin oedolion ac ymwelwyr gyda lefel arbennig o barch ac aeddfedrwydd. Mae hyn yn nodwedd ragorol o'r ysgol. Mae bron pob disgybl yn rhoi ystyriaeth ofalus i anghenion eu cyfeillion, er enghraifft wrth helpu ei gilydd yn ystod amseroedd cinio. Mae bron pob disgybl yn teimlo'n ddiogel yn yr ysgol ac yn mwynhau mynychu yn ddyddiol.

Mae gan ran fwyaf y disgyblion ddealltwriaeth dda iawn o sut i gadw'n iach ac mae disgyblion o bob oedran yn mynegi hyn yn glir wrth drafod eu harferion bob dydd. Er enghraifft yn yr uned dan 5, mae disgyblion yn siarad yn hyderus am ba fwydydd sydd yn iachus ac yn llai iachus. Mae disgyblion yn y Cyfnod Sylfaen yn mwynhau defnyddio offer dringo a beiciau. Mae hyn yn datblygu medrau corfforol bron pob disgybl yn effeithiol. Mae rhan fwyaf y disgyblion yn frwdfrydig iawn wrth redeg y 'filltir ddyddiol' ac yn trafod pwysigrwydd cadw'n heini yn wybodus iawn.

Mae bron pob un disgybl yn dangos agwedd bositif iawn tuag at eu gwaith ac maent yn dyfalbarhau â'u tasgau yn arbennig o dda. Maent yn dangos gwydnwch eithriadol wrth wynebu heriau yn eu gwaith ac yn llwyddo i oresgyn anawsterau yn dda iawn. Maent yn cydweithio'n effeithiol iawn gyda'u cyfoedion ac yn dangos parch at farnau pobl eraill. Mae disgyblion yn cymryd eu cyfrifoldebau o ddifri ac maent yn falch iawn o'r cyfleoedd sydd ganddynt. Yn y Cyfnod Sylfaen, mae disgyblion yn paratoi'r llaeth ar gyfer disgyblion eraill heb arweiniad oedolion. Ym Mlwyddyn 6, mae gan bob disgybl gyfrifoldebau penodol, er enghraifft fel llysgenhadon iaith a gyda chyfrifoldeb am ddarlledu rhaglen radio'r ysgol yn fyw yn wythnosol. Mae hyn yn datblygu eu medrau cymdeithasol a bywyd yn gadarn iawn.

Tu allan i'r ysgol, mae mwyafrif y disgyblion yn cyfrannu'n dda i'w dysgu, trwy gymryd rhan mewn gweithgareddau all-gwricwlaidd, er enghraifft chwaraeon ac eisteddfodau lleol, rhanbarthol a chenedlaethol. Maent yn ymfalchïo mewn perfformio o flaen disgyblion eraill mewn gwasanaethau ysgol.

| **3: Addysgu a phrofiadau dysgu** | **Da** |
|---|---|

Mae ansawdd yr addysgu ar draws yr ysgol yn dda ac yn deillio o berthynas waith lwyddiannus rhwng y disgyblion, yr athrawon a'r cynorthwywyr dysgu. Mae hyn yn arwain at gydweithio effeithiol ac ysfa gynhenid i lwyddo ymysg rhan fwyaf y disgyblion.

Mae'r ysgol yn gosod y disgyblion mewn grwpiau dysgu penodol. Nodwedd unigryw o'r drefn hon yw'r cyfrifoldeb a roddir i athrawon i addysgu pwnc craidd neu faes astudio penodol, i ystod o ddosbarthiadau, trwy themâu traws-gwricwlaidd. Trwy gynllunio'n ofalus, mae llawer o'r athrawon yn datblygu arbenigedd medrus mewn agweddau penodol o'r cwricwlwm sydd yn cyfoethogi'r ddarpariaeth yn fuddiol. Mae hyn yn arwain at safonau cadarn ymysg llawer o ddisgyblion, yn enwedig mewn llafaredd a gwaith gwyddoniaeth.

Mae gan gynlluniau gwaith ffocws cadarn ar alluogi rhan fwyaf y disgyblion i ddefnyddio eu medrau'n llwyddiannus er mwyn cael mynediad llawn i'r cwricwlwm. Mae llawer o'r athrawon yn darparu profiadau buddiol mewn ardaloedd croesawus sydd yn ennyn diddordeb rhan fwyaf y disgyblion yn effeithiol. Fodd bynnag, nid yw athrawon bob amser yn darparu digon o gyfleoedd creadigol i ddisgyblion ymestyn eu gwybodaeth a dealltwriaeth yn effeithiol, er enghraifft drwy'r gorddefnydd o daflenni gwaith. Mae hyn yn cyfyngu gallu llawer o'r disgyblion i gyflawni gwaith ymestynnol. Mae gweithgarwch yr ysgol i fodloni gofynion y fframwaith cymhwysedd digidol yn datblygu'n gryf ac mae'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau TGCh y rhan fwyaf o'r disgyblion yn dda iawn.

Mae egwyddorion y Cyfnod Sylfaen wedi eu sefydlu'n briodol. Mae mynediad di-dor i'r ardaloedd allanol yn sicrhau bod llawer o'r disgyblion yn elwa o weithgareddau diddorol. Mae llawer o'r athrawon yn darparu gweithgareddau ffocws a pharhaus effeithiol sy'n cynnwys cyfleoedd buddiol i ddisgyblion ymchwilio, chwarae rôl, adeiladu ac ymarfer eu medrau corfforol. Mae hyn yn meithrin disgyblion sydd ag agweddau positif tuag at ddysgu ac sy'n dyfalbarhau am gyfnodau estynedig. Er hyn, ar adegau, mae ffocws ar gofnodi tasgau yn llesteirio cyfleoedd i ddisgyblion ddysgu drwy chwarae a thrwy brofiadau byw, yn enwedig ar ddechrau'r Cyfnod Sylfaen. Yng nghyfnod allweddol 2, mae llawer o athrawon yn darparu cyfleoedd gwerthfawr i alluogi disgyblion i ddatrys problemau ac i ddatblygu eu medrau meddwl. Ar draws yr ysgol, mae llawer o'r gweithgareddau'n dueddol o gael eu harwain gan oedolion ac nid oes digon o gyfleoedd effeithiol i alluogi disgyblion ar draws yr ysgol i wneud penderfyniadau a dewisiadau ynglŷn â'u haddysg.

Mae bron pob aelod o staff yn fodelau iaith rhagorol ac yn rhoi bri ar ddatblygu ac arddel tafodiaith Sir Gaerfyrddin. Maent yn annog disgyblion i ddefnyddio'r Gymraeg yn ystod gweithgareddau ffurfiol ac anffurfiol. O ganlyniad, mae gan lawer o ddisgyblion hŷn fedrau trawsieithu cadarn ac maent yn datblygu'n ddysgwyr dwyieithog cymwys a hyderus.

Mae gan lawer o athrawon ddisgwyliadau uchel. Maent yn defnyddio amrywiaeth eang o arddulliau asesu ar gyfer dysgu yn effeithiol. Er enghraifft, maent yn creu meini prawf llwyddiant yn effeithiol er mwyn gwerthuso i ba raddau mae disgyblion wedi llwyddo i wneud cynnydd yn ystod y gwersi. Mae'r mwyafrif yn darparu cyfleoedd priodol i ddisgyblion werthuso eu gwaith ac yn eu hannog i osod targedau addas ar gyfer gwella. Mae cyflymder bwriadus a holi medrus yn ymestyn dealltwriaeth rhan fwyaf y disgyblion yn effeithiol, yn enwedig y rhai mwy abl.

Mae rhan fwyaf yr athrawon yn marcio gwaith disgyblion yn bwrpasol ac yn rhoi adborth buddiol i'r disgyblion ar lafar. Mae'r sylwadau yn nodi cryfderau yn ogystal â'r hyn sydd angen iddyn nhw ei wneud er mwyn gwella cynnwys a chyflwyniad y gwaith. Fodd bynnag, nid yw'r adborth bob tro'n ddigon penodol er mwyn egluro beth sydd angen iddyn nhw ei wneud er mwyn gwella eu medrau wrth gyflawni gwaith dilynol.

| **4: Gofal, cymorth ac arweiniad** | **Da** |
|---|---|

Mae gan yr ysgol systemau effeithiol ar gyfer olrhain cynnydd disgyblion ar eu taith trwy'r ysgol. Mae athrawon yn defnyddio'r wybodaeth hon yn briodol er mwyn adnabod y disgyblion sydd angen cefnogaeth ychwanegol mewn llythrennedd neu rifedd er mwyn trefnu ymyrraeth yn ôl yr angen. Mae'r athrawon yn gwneud defnydd addas o'r deilliannau asesu ar draws y pynciau craidd a'r meysydd dysgu, er mwyn cynllunio'r camau nesaf mewn cynlluniau wythnosol. Mae ansawdd ymyraethau yn effeithiol ac mae disgyblion yn gwneud cynnydd da tuag at eu targedau. Mae gan bob disgybl sydd ag anghenion dysgu ychwanegol gynllun dysgu priodol. Fodd bynnag, nid yw'r targedau unigol bob tro'n ddigon penodol er mwyn adnabod y camau bach sydd eu hangen arnynt i wneud y cynnydd mwyaf effeithiol yn eu dysgu.

Mae gan yr ysgol strategaethau penodol sydd yn llwyddo i gefnogi anghenion emosiynol a chymdeithasol y disgyblion yn effeithiol, er enghraifft eu rhaglen ymwybyddiaeth ymlyniad. Mae hyn yn cyfrannu'n dda at yr ethos gofalgar a theuluol sy'n bodoli yn yr ysgol. Mae'r ysgol yn helpu rhieni i gefnogi eu plant yn effeithiol, er enghraifft trwy gynnig sesiynau hyfforddiant ar fethodoleg mathemateg yr ysgol.

Trwy ddarparu sesiynau effeithiol gyda ffocws ar addysg bersonol a chymdeithasol, mae'r ysgol yn llwyddo i sicrhau bod gan y rhan fwyaf o ddisgyblion ddealltwriaeth dda iawn o effaith dewisiadau ffyrdd o fyw ar eu hiechyd. Er enghraifft, mae disgyblion yn dangos dealltwriaeth gadarn o bwysigrwydd bwyta'n iach a chadw'n heini, ac maent yn siarad yn hyderus am yr angen i ddefnyddio cyfrinair cryf i gadw manylion personol yn ddiogel ar y we. Mae disgyblion yn cael cyfleoedd priodol i ddylanwadu ar elfennau o waith yr ysgol, er enghraifft trwy gynnig syniadau i'r cyngor ysgol yn y blychau coch a gwyrdd. Mae disgyblion yn cael cyfleoedd addas i gynnig syniadau ar ddechrau'r themâu a thrwy'r system 'Mae gen i syniad' ar gyfer gweithgareddau yn yr ardaloedd darpariaeth barhaus yn y Cyfnod Sylfaen. Fodd bynnag, prin yw'r cyfleoedd yn gyffredinol iddynt ddylanwadu'n ddigon effeithiol ar yr hyn y maent yn ei ddysgu.

Mae parchu aml-ddiwylliannau, hybu agweddau o amrywiaeth, gwrth-hiliaeth a datblygu tegwch a chyfle cyfartal yn elfennau cryf o ddiwylliant yr ysgol. Mae pwyslais amlwg ar hybu gwerthoedd cytûn yr ysgol, ac mae hyn yn cael dylanwad positif ar ymddygiad disgyblion. Mae’r athrawon yn cynllunio ystod eang o weithgareddau ymestynnol er mwyn datblygu ymwybyddiaeth a gwerthfawrogiad da iawn o hanes, diwylliant a thraddodiadau Cymru ymysg y rhan fwyaf o’r disgyblion.

Mae’r ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau celfyddydau creadigol a chorfforol y disgyblion yn arbennig. Mae cyfleoedd eang i ddisgyblion arbrofi gydag amrywiaeth o gyfryngau celf i arlunio, creu cerfluniau a gemwaith wrth astudio gwaith arlunwyr adnabyddus. Trwy wersi, cyfleoedd i berfformio ac i gystadlu yn yr ysgol ac mewn eisteddfodau, mae rhan fwyaf y disgyblion yn cael cyfleoedd gwerthfawr i ymwneud â’r celfyddydau creadigol. Yn ogystal â hyn, maent yn derbyn cyfle yn flynyddol i ymweld â theatr leol, ac mae cwmnïau theatr mewn addysg yn ysgogi disgyblion trwy berfformio yn yr ysgol.

Mae trefniadau ar gyfer rheoli’r safle a diogelu disgyblion yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

| **5: Arweinyddiaeth a rheolaeth** | **Da** |
|---|---|

Mae arweinyddiaeth flaengar a chadarn y pennaeth yn gosod cyfeiriad strategol clir i ddatblygiad yr ysgol. Caiff y pennaeth ei gefnogi’n effeithiol gan y penaethiaid cynorthwyol. Ar y cyd, maent yn gosod disgwyliadau uchel a gweledigaeth bwrpasol sy'n cael eu rhannu'n llwyddiannus gyda chymuned yr ysgol. Mae'r pennaeth yn dosrannu cyfrifoldebau'n effeithiol ac mae’r staff yn cydweithio’n fedrus iawn er mwyn sicrhau ethos gofalgar a lles rhagorol disgyblion.

Mae gan arweinwyr ddealltwriaeth gadarn o gryfderau a meysydd sydd angen eu gwella yn yr ysgol. Maent yn defnyddio’r wybodaeth o brosesau hunanarfarnu trylwyr ac eang, fel craffu ar lyfrau, arsylwi gwersi a dadansoddi data, er mwyn adnabod blaenoriaethau gwella synhwyrol i’w cynnwys yn y cynllun datblygu ysgol. O ganlyniad, maent yn gosod cyfeiriad strategol clir i’r ysgol, sy’n seiliedig ar dystiolaeth uniongyrchol.

Mae’r llywodraethwyr yn herio ac yn cefnogi’r ysgol yn drwyadl ac mae ganddynt ddealltwriaeth dreiddgar o gryfderau'r ysgol ac o'r meysydd sydd angen eu datblygu ymhellach. Maent yn chwarae rhan amlwg a blaenllaw yn y broses hunanarfarnu, ac wrth osod blaenoriaethau gwella. Mae’r llywodraethwyr yn cydweithio â’r pennaeth, yr uwch dîm rheoli a’r arweinwyr pwnc yn effeithiol, er enghraifft er mwyn arfarnu cynnydd yn ofalus a sicrhau bod y cynllun datblygu ysgol wedi arwain at welliannau gweladwy mewn safonau a darpariaeth. O ganlyniad, mae arweinwyr yn adnabod yn dda pa mor effeithiol yw eu cynlluniau gwella ac yn arddangos hanes da o wneud gwelliannau sydd wedi arwain at effaith gadarnhaol mewn dysgu a lles disgyblion. Fodd bynnag, mae agweddau yn parhau i fod angen eu gwella, er iddynt eisoes gael eu hadnabod yn y broses hunanarfarnu, er enghraifft y gorddefnydd o daflenni gwaith parod. Yn ogystal, nid yw arweinwyr bob tro’n adolygu’r holl ddarpariaeth yn ddigon rheolaidd er mwyn gwerthuso’r effaith ar gyrraedd safonau uchel.

Mae'r arweinwyr yn cydlynu'r gwaith o fynd i'r afael â'r blaenoriaethau gwella yn effeithiol. Mae'r athrawon yn ymwybodol o'u cyfrifoldebau a'u cyfraniad tuag at gyflawni'r blaenoriaethau gwella. Mae rheoli perfformiad trylwyr a theg yn sicrhau bod ffocws synhwyrol i dargedau'r staff. Mae hyn yn cyfrannu'n effeithiol tuag at y gwaith o gwrdd â'r blaenoriaethau yn glir. Yn ogystal, mae datblygiad proffesiynol defnyddiol i'r staff, sy'n datblygu eu cymhwysedd ymhellach er mwyn cyflawni'r gwaith gwella hwn yn llwyddiannus. Mae ystod eang o gyfleoedd gwerthfawr i staff wella'u medrau a'u gwybodaeth broffesiynol ac i rannu arfer dda gydag ysgolion eraill. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar gynllunio, addysgu a chynnal partneriaethau gwerthfawr. Enghraifft dda o hyn yw'r gwaith effeithiol mae'r ysgol yn ei wneud ar gyfer datblygu'r Fframwaith Cymhwysedd Digidol gydag ysgolion lleol.

Drwy strwythur staffio clir, cyfrifoldebau diamwys a thimoedd o athrawon yn gweithio oddi fewn i gymunedau dysgu effeithiol, mae arweinyddiaeth ddosranedig yn cael effaith gadarnhaol ar wella safonau a lles disgyblion a chryfhau'r ddarpariaeth. Er enghraifft, mae'r cymunedau dysgu mewnol ar gyfer llythrennedd ac ar gyfer rhifedd yn sicrhau bod timoedd o athrawon yn cyfrannu'n effeithiol tuag at gwrdd â meini prawf mesuradwy yn y cynllun datblygu ysgol. Mae'r timoedd hyn yn creu is-gynlluniau gwella penodol, sy'n llywio eu gwaith yn effeithiol ac yn sicrhau atebolrwydd a pherchnogaeth i'r arweinwyr pwnc, yr athrawon a'r staff cynorthwyol. O ganlyniad, mae'r ysgol yn gymuned ddysgu gref ac mae'r arweinyddiaeth yn gwella agweddau o'r ddarpariaeth ac yn cynnal y safonau da yn fedrus.

Mae arweinwyr yn sicrhau defnydd pwrpasol o gyllideb yr ysgol er mwyn gwella'r ddarpariaeth a safonau, ac mae'r gwariant yn cysylltu â blaenoriaethau'r cynllun datblygu ysgol yn synhwyrol. Gwneir defnydd da o'r Grant Amddifadedd Disgyblion i wella'r ddarpariaeth ar gyfer datblygu medrau llythrennedd, rhifedd a lles y disgyblion sy'n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim.

Mae'r ysgol wedi ei staffio'n briodol ac mae'r staff cynorthwyol yn rhan annatod o'r tîm, gan gyfrannu'n addas at safonau, lles a medrau cymdeithasol y disgyblion. Mae defnydd ystyrlon o arbenigedd athrawon i gyfoethogi'r addysgu a'r dysgu drwy'r trefniant dosbarth ble maent yn addysgu pwnc craidd neu faes astudio penodol.

## Ynglŷn â’r ysgol

Lleolir Ysgol y Dderwen yng nghanol tref farchnad Caerfyrddin yn Sir Gaerfyrddin. Cymraeg yw prif gyfrwng gwaith a bywyd yr ysgol. Mae 363 disgybl rhwng 3 ac 11 oed ar y gofrestr, yn cynnwys 44 oed meithrin amser llawn a 22 rhan-amser. Fe’u rhennir yn 13 dosbarth, gan gynnwys 12 dosbarth oedran cymysg.

Tua 5% o’r disgyblion sy’n gymwys i dderbyn prydau ysgol am ddim. Mae hyn yn sylweddol is na’r canran cenedlaethol. Mae llawer o’r disgyblion yn siarad Cymraeg gartref ac ychydig iawn sydd o gefndir lleiafrifol ethnig. Mae’r ysgol wedi adnabod 9% o’i disgyblion fel rhai sydd ag anghenion dysgu ychwanegol ond ychydig iawn sydd â datganiad o anghenion addysgol arbennig.

Penodwyd y pennaeth i’w swydd ym mis Ionawr 2014 ac arolygwyd yr ysgol ddiwethaf ym mis Mawrth 2010.

Ar hyn o bryd, mae’r ysgol yn ysgol arloesi. Mae hyn yn golygu ei bod yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru ac ysgolion eraill i ddatblygu cwricwlwm newydd i Gymru.

## Atodiad 1: Tabl cryno meysydd arolygu

| | |
|---|---|
| **Safonau** | **Da** |
| **Lles ac agweddau at ddysgu** | **Rhagorol** |
| **Addysgu a phrofiadau dysgu** | **Da** |
| **Gofal, cymorth ac arweiniad** | **Da** |
| **Arweinyddiaeth a rheolaeth** | **Da** |

Mae Estyn yn arfarnu effeithiolrwydd darparwr gan ddefnyddio graddfa farnau pedwar pwynt, sef:

| | |
|---|---|
| **Rhagorol** | Perfformiad ac arfer gadarn, gyson |
| **Da** | Nodweddion cryf, er y gall fod angen gwella mân agweddau |
| **Digonol, angen gwella** | Cryfderau'n gorbwyso gwendidau, ond agweddau pwysig y mae angen eu gwella |
| **Anfoddhaol, angen gwella ar frys** | Gwendidau pwysig yn gorbwyso cryfderau |

# Atodiad 2: Data perfformiad

**6692116 - YSGOL Y DDERWEN**

| | | |
|---|---|---|
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 347 | |
| Disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (PYDd) - cyfartaledd 3 blynedd | 4.5 | |
| Grŵp PYD | 1 | (PYD<=8%) |

**Cyfnod Sylfaen**

| | 2013 | 2014 | 2015 | 2016 |
|---|---|---|---|---|
| **Nifer y disgyblion yng ngharfan Blwyddyn 2** | 43 | 47 | 44 | 49 |
| **Yn cyflawni dangosydd y Cyfnod Sylfaen (DCS) (%)** | 95.3 | 95.7 | 97.7 | 100.0 |
| Chwartel meincnod | 2 | 2 | 2 | 1 |
| **Sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu - Saesneg (LCE)** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | * | * | * | * |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | * | * | * | * |
| Chwartel meincnod | * | * | * | * |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | * | * | * | * |
| Chwartel meincnod | * | * | * | * |
| **Sgiliau iaith, llythrennedd a chyfathrebu - Cymraeg (LCW)** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 43 | 47 | 44 | 49 |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | 95.3 | 95.7 | 97.7 | 100.0 |
| Chwartel meincnod | 2 | 2 | 2 | 1 |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | 30.2 | 34.0 | 59.1 | 61.2 |
| Chwartel meincnod | 3 | 3 | 1 | 1 |
| **Datblygiad mathemategol (MDT)** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 43 | 47 | 44 | 49 |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | 100.0 | 100.0 | 97.7 | 100.0 |
| Chwartel meincnod | 1 | 1 | 2 | 1 |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | 30.2 | 38.3 | 59.1 | 61.2 |
| Chwartel meincnod | 3 | 3 | 1 | 1 |
| **Datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amryw iath ddiw y lliannol (PSD)** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 43 | 47 | 44 | 49 |
| Yn cyflawni deilliant 5+ (%) | 100.0 | 100.0 | 100.0 | 100.0 |
| Chwartel meincnod | 1 | 1 | 1 | 1 |
| Yn cyflawni deilliant 6+ (%) | 55.8 | 57.4 | 68.2 | 79.6 |
| Chwartel meincnod | 3 | 3 | 3 | 2 |

Mae'r dangosydd Cyfnod Sylfaen (DCS) yn cynrychioli canran y disglybion sydd wedi deilliant 5 neu uwch mewn PSD, LCE/LCW ac MDT gyda'l gilydd.
* Gallai'r eitem hon ddatgelu gwybodaeth am unigolion, neu os nad yw'n ddigon trylwyr i'w chyhoeddi, os nad yw'n berthnasol neu os nad yw ar gael fel arall.

Mae'r chwartel meincnod yn cymharu perfformiad un ysgol â pherfformiad ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim (PYDd). Defnyddir PYDd yn ddirprwy ar gyfer difreintedd cymdeithasol mewn ysgolion. Mae hyn yn caniatáu am gymharu perfformiad ysgol â pherfformiad ysgolion eraill yn yr un categori PYDd ac a allai, felly, fod yn derbyn nifer tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.
Mae ysgol yn chwartel meincnod 1 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio orau ac sydd â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn uwch nag mewn llawer o ysgolion eraill â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig. Mae ysgol yn chwartel meincnod 4 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio waethaf ac â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn is nag mewn llawer o ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.

Adroddiad ar Ysgol Y Dderwen
Mawrth 2017

**6692116 - YSGOL Y DDERWEN**

| | | |
|---|---|---|
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 347 | |
| Disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim (PYDd) - cyfartaledd 3 blynedd | 4.5 | |
| Grŵp PYD | 1 | (PYD<=8%) |

**Cyfnod allweddol 2**

| | 2013 | 2014 | 2015 | 2016 |
|---|---|---|---|---|
| **Nifer y disgyblion yng ngharfan Blwyddyn 6** | 26 | 35 | 36 | 42 |
| **Yn cyflawni dangosydd pynciau craidd (DPC) (%)** | 100.0 | 97.1 | 94.4 | 97.6 |
| Chwartel meincnod | 1 | 2 | 3 | 2 |
| **Saesneg** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 26 | 35 | 36 | 42 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 92.3 | 100.0 | 97.2 | 97.6 |
| Chwartel meincnod | 3 | 1 | 2 | 3 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 50.0 | 40.0 | 61.1 | 57.1 |
| Chwartel meincnod | 2 | 3 | 1 | 2 |
| **Cymraeg iaith gyntaf** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 26 | 35 | 36 | 42 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 100.0 | 100.0 | 100.0 | 97.6 |
| Chwartel meincnod | 1 | 1 | 1 | 2 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 46.2 | 45.7 | 52.8 | 52.4 |
| Chwartel meincnod | 2 | 2 | 2 | 2 |
| **Mathemateg** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 26 | 35 | 36 | 42 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 100.0 | 97.1 | 94.4 | 97.6 |
| Chwartel meincnod | 1 | 2 | 3 | 3 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 38.5 | 51.4 | 58.3 | 57.1 |
| Chwartel meincnod | 3 | 2 | 2 | 2 |
| **Gwyddoniaeth** | | | | |
| Nifer y disgyblion yng ngharfan | 26 | 35 | 36 | 42 |
| Yn cyflawni lefel 4+ (%) | 100.0 | 100.0 | 100.0 | 100.0 |
| Chwartel meincnod | 1 | 1 | 1 | 1 |
| Yn cyflawni lefel 5+ (%) | 34.6 | 48.6 | 61.1 | 54.8 |
| Chwartel meincnod | 3 | 2 | 2 | 2 |

Mae'r dangosydd pynciau craidd (DPC) yn cynrychioli canran y disgyblion sydd wedi cyrraedd lefel 4 neu uwch mewn Saesneg neu Gymraeg (iath gyntaf), mathemateg a gwyddoniaeth gyda'i gilydd.

* Gallai'r eitem hon ddatgelu gwybodaeth am unigolion, neu os nad yw'n ddigon trylwyr i'w chyhoeddi, os nad yw'n berthnasol neu os nad yw ar gael fel arall.

Mae'r chwartel meincnod yn cymharu perfformiad un ysgol â pherfformiad ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion sy'n cael prydau ysgol am ddim (PYDd). Defnyddir PYDd yn ddirprwy ar gyfer difreintedd cymdeithasol mewn ysgolion. Mae hyn yn caniatáu am gymharu perfformiad ysgol â pherfformiad ysgolion eraill yn yr un categori PYDd ac a allai, felly, fod yn derbyn nifer tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.
Mae ysgol yn chwartel meincnod 1 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio orau ac sydd â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn uwch nag mewn llawer o ysgolion eraill â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig. Mae ysgol yn chwartel meincnod 4 ymhlith y 25% o ysgolion sy'n perfformio waethaf ac â lefelau prydau ysgol am ddim sy'n debyg i'r ysgol hon. Felly, mae lefelau cyrhaeddiad yr ysgol yn is nag mewn llawer o ysgolion eraill sydd â lefelau tebyg o ddisgyblion o gefndiroedd difreintiedig.

Mae rhagor o wybodaeth ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol, yn y ddolen isod.
http://mylocalschool.wales.gov.uk/index.html?iath=cym

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

Defnyddiom yr arolygiad hwn i roi datblygiadau i'r fframwaith arolygu cyffredin, y broses arolygu a fformat yr adroddiad arolygu ar brawf.  Byddwn yn adolygu'r trefniadau hyn ac yn gwneud unrhyw newidiadau sy'n ofynnol cyn eu cyflwyno'n genedlaethol ym Medi 2017.

Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi.  Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor,
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW  neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Ⓗ Hawlfraint y Goron 2017:  Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol.  Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi:  05/06/2017**